**Eitem ar yr agenda: 3**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion cyfarfod Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Mercher, 26ain Hydref 2005 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 11.55am.

**Presennol:**

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| T Roberts (Cadeirydd) | Cyngor Gwynedd |
| M Williams (Is-Gadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J M Vaughan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| P C Evans YH (dirprwy) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Jones MBE | Cyngor Sir Ddinbych |
| D Barratt | Cyngor Sir y Fflint |
| E F Evans | Cyngor Sir y Fflint |
| G M Craddock | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| E C George | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| W J Chorlton | Cyngor Sir Ynys Môn |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); I R Miller (Clerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod); K W Finch (Trysorydd i'r Awdurdod); C Enness (Dirprwy Brif Swyddog Tân); P S Claydon (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyflwyno'r Gwasanaethau); P L Slee (Prif Swyddog Cynorthwyol, Gwasanaethau Corfforaethol); S Forrest (Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); N Williams (Rheolwr Ystadau); D Bond (Rheolwr yr Adran Drafnidiaeth); R D Peacock (Aelod o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, yn bresennol fel arsylwr) a Rh Evans (Swyddog Cyswllt Aelodau).

**RHAN I**

**1) Ymddiheuriadau**

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| S C Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| J A Smith | Cyngor Sir Ddinbych |
| E Morgan Jones | Cyngor Gwynedd |
| J A Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |

| | |
|---|---|
| C Hanks | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cynnal y Gwasanaethau) |

**2) Rhybudd o Faterion Brys**

Cynghorodd y Cadeirydd na chyflwynwyd unrhyw eitemau i'w hystyried gan y Clerc na chanddo ef.

**3) Cofnodion**

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol:

i. Cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 25ain Gorffennaf 2005

***<u>Penderfynwyd</u>: - cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod gwir a chywir o'r trafodion.***

**4) Materion yn codi**

**Roedd y materion a ganlyn yn codi o'r cofnodion:**

**Tudalen 2, Eitem 5 – Y berthynas rhwng Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru:** Wrth ateb cwestiwn y Cynghorydd E C George ar y sefyllfa ddiweddaraf o ran y mater hwn, cynghorodd y Cadeirydd fod yr adroddiad, a gafodd ei ystyried gan y Panel yn ei gyfarfod diwethaf, erbyn hyn wedi cael ei drafod gan yr awdurdodau tân ac achub eraill yng Nghymru. Roedd canlyniadau'r ymgynghoriad i'w cyflwyno mewn adroddiad i gyfarfod arbennig o Gyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar 28ain Hydref 2005. Darllenwyd darnau o'r adroddiad i'w drafod yng nghyfarfod Cyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i'r aelodau gan y Cadeirydd. Cynghorodd mai'r argymhelliad oedd i'r Cyngor "gadarnhau'r pwyntiau a godwyd yn yr adroddiad yn enwedig sefydlu Panel Gwasanaethau Tân Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a dechrau trafodaethau ar sefydlu swydd yn canolbwyntio'n benodol ar y materion hyn." Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn obeithiol, unwaith y byddai Cyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cadarnhau'r argymhelliad, y byddai cyfarfod cyntaf y Panel Gwasanaethau Tân yn cael ei gynnal yn fuan wedyn. Barn y Cynghorydd George oedd ei bod yn hanfodol bwysig fod y Panel hwn yn cael ei ystyried fel cyfrwng yr awdurdodau tân ac achub i ryngweithio â Llywodraeth yng Nghymru, yn yr un modd ag yr ystyrir Fforwm Tân y Gymdeithas Llywodraeth Leol fel cyfrwng yr awdurdodau i ymwneud â'r Llywodraeth yn Lloegr. Dywedodd y Cynghorydd P C Evans ei bod yn ymddangos bod agwedd gynyddol yn y Gymdeithas Llywodraeth Leol i beidio â chynnwys aelodau o Gymru mewn cyfarfodydd a thrafodaethau. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - fod y Cadeirydd yn gofyn i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru lobïo'r Gymdeithas Llywodraeth Leol i beidio ag eithrio aelodau o Gymru o gyfarfodydd a thrafodaethau yn y dyfodol.***

**Arwyddion ffyrdd i Bencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub:** Holodd yr aelodau a oedd trefniadau ar y gweill i osod arwyddion ar yr A55 a'r ffordd yn mynd drwy'r Parc Busnes i gyfeirio ymwelwyr i safle'r Pencadlys. Cynghorodd y Prif Swyddog Tân ei fod wedi bod yn pwyso ar yr awdurdodau ers hydoedd i roi caniatâd i osod arwyddion. Cynghorodd y Clerc, gan fod yr A55 yn gefnffordd mai cyfrifoldeb y Cynulliad Cenedlaethol oedd rhoi caniatâd i osod arwyddion. Gan fod Ffordd Salesbury, lle lleolir y Pencadlys, yn parhau dan gyfrifoldeb Awdurdod Datblygu Cymru ac, tan y'i mabwysiadwyd gan yr awdurdod lleol, sef Cyngor Sir Ddinbych, ni allai'r Cyngor roi caniatâd i godi arwydd.

**Y Cynghorydd S C Jones:** Hysbyswyd yr aelodau fod y Cynghorydd Sue Jones wedi gwella'n dda yn dilyn cyfnod o waeledd yn ddiweddar. Yn anffodus, yn dilyn damwain yn ei chartref yn ddiweddar ni fyddai'n medru mynychu cyfarfodydd am ychydig o wythnosau eto, ond roedd hi'n parhau i fod â diddordeb brwd yng ngwaith yr Awdurdod.

Cyn trafod y tair eitem busnes nesaf darllenodd y Cadeirydd lythyr oddi wrth Mr Anthony Barrett, Archwilydd Penodedig Swyddfa Archwilio Cymru, yn esbonio fod Swyddfa Archwilio Cymru wedi wynebu anawsterau wrth gwblhau'r archwiliad o gyfrifon yr Awdurdod. Yn ei lythyr pwysleisiodd Mr Barrett fod yr anawsterau yn ymwneud â materion gweithredol yn Swyddfa Archwilio Cymru ac nad oedd yr oedi wedi ei achosi gan unrhyw ddiffygion ar ran swyddogion yr Awdurdod Tân ac Achub. Ymddiheurodd am yr oedi a'r anghyfleustra yn deillio o hynny. Sicrhawyd yr aelodau y byddent yn cymryd bob cam posibl i sicrhau na fyddai sefyllfa debyg yn digwydd eto yn y dyfodol. Byddai'r Datganiad ar Gyfrifon 2004/05 yn cael ei gyflwyno gerbron cyfarfod mis Rhagfyr 2005 yr Awdurdod yn awr i'w gymeradwyo.

Yna esboniodd Mr David Jones, Rheolwr Archwilio Swyddfa Archwilio Cymru, i'r aelodau y rhesymau pam nad oedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi gallu cwblhau'r gwaith ar y Datganiad ar Gyfrifon. Esboniodd ei bod yn arferol, fel rhan o archwiliad dechreuol y cyfrifon, iddo dynnu sylw at nifer o feysydd lle teimlai bod lle i wella'r dadleniadau a wnaed mewn datganiadau, a nodi materion yr oedd yn ofynnol i'r archwilwyr eu profi, ymdrin â nhw a'u datrys. Wrth ymgymryd ag archwiliad terfynol y cyfrifon sylweddolodd nad oedd staff Swyddfa Archwilio Cymru wedi hysbysu Trysorydd yr Awdurdod a'i staff am nifer o'r materion hyn a'r newidiadau posib. Pwysleisiodd Mr Jones nad oedd yn rhagweld y byddai'n ofynnol gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i'r Datganiad ar Gyfrifon. Roedd yn hyderus y byddai'r Trysorydd yn cytuno i'r newidiadau a oedd yn ofynnol, ond nes bo'r materion wedi eu trafod yn fanwl ni fyddai wedi cyflawni gofynion Côd Arfer Archwilio CIPFA o ran cwblhau gwaith archwilio. Ymddiheurodd Mr Jones am yr oedi hefyd a sicrhaodd yr aelodau fod popeth posibl yn cael ei wneud i gwblhau'r gwaith gynted ag y bo modd.

Dywedodd y Trysorydd wrth yr aelodau y byddai'n debygol o gytuno i rai o'r newidiadau er diben eglurder, ond nid o anghenraid i bob un ohonynt. Gan fod arno angen astudio pob un o'r materion a godwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru roedd o'r farn na allai'r Panel fwrw ymlaen â'r tair eitem busnes nesaf

gan y gallai fod yn ofynnol diwygio'r "Llythyr o Gynrychiolaeth" i adlewyrchu'r materion a godwyd. Sicrhaodd Mr Jones y Trysorydd mai materion yn ymwneud â chyflwyniad oeddynt yn bennaf; petai unrhyw faterion sylweddol wedi dod i'r amlwg byddai wedi gorfod cyflwyno adroddiad arnynt i'r Awdurdod. Roedd y gwendid o du Swyddfa Archwilio Cymru am beidio â hysbysu Adran y Trysorydd am y materion a nodwyd.

Cytunodd Mr Jones i fodloni cais y Cynghorydd WJ Chorlton i gynnwys rhestr o'r materion a nodwyd i'r aelodau gyda Datganiad Cyfrifon 2004/05 pan fyddai'n cael ei gyflwyno gerbron yr Awdurdod yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr.

***<u>Penderfynwyd</u>* –**

***i. nodi cynnwys y llythyr oddi wrth Archwilydd Penodedig Swyddfa Archwilio Cymru a datganiad y Rheolwr Archwilio;***
***ii. gohirio trafod eitemau busnes 5, 6 a 7 tan gyfarfod nesaf yr Awdurdod Tân ac Achub ar 19eg Rhagfyr 2005; a***
***iii. bod Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu rhestr o'r materion a nodwyd ac a oedd wedi arwain at yr oedi wrth gyflawni archwiliad y Datganiad ar Gyfrifon, i'w ddosbarthu i'r aelodau gyda'r cyfrifon terfynol ar gyfer cyfarfod yr Awdurdod ym mis Rhagfyr.***

**5) Llythyr o Gynrychiolaeth**

Gohiriwyd yr eitem hon tan gyfarfod nesaf yr Awdurdod.

**6) Hysbysu ynglŷn â Datganiadau Ariannol i'r rhai hynny sydd â chyfrifoldeb dros Reolaeth**

Gohiriwyd yr eitem hon tan gyfarfod nesaf yr Awdurdod.

**7) Cymeradwyo'r Datganiad ar Gyfrifon 2004/05**

Gohiriwyd yr eitem hon tan gyfarfod nesaf yr Awdurdod.

**8) Cynllun Integredig Rheoli Risg – Cynllun Gweithredu'r Drydedd Flwyddyn**

Cyn i'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau) Paul Claydon gyflwyno ei adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn hysbysu'r aelodau ynghylch gofynion trydedd flwyddyn y Cynllun Integredig Rheoli Risg a'r meysydd a awgrymir i'w datblygu a'u hymchwilio ymhellach cyn eu cyflwyno gerbron yr Awdurdod Tân ac Achub i'w cymeradwyo, darllenodd y Clerc ddarnau o lythyr a dderbyniwyd oddi wrth y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn Llywodraeth y Cynulliad. Roedd llythyr y Gweinidog yn ymateb i'r cais am eglurhad y gofynnwyd amdano gan y Panel yn ei gyfarfod diwethaf, ar yr ymadrodd "gohirio elfennau o weithgareddau Cynlluniau Integredig Rheoli Risg". Yn ei hateb dywedodd y Gweinidog nad oedd ganddi "unrhyw ddyhead, ac nad yw'n briodol i'r Cynulliad ymwneud â

phenderfyniadau o ddydd i ddydd yr awdurdodau tân ac achub" ond ei bod yn "chwilio'n benodol am gytundeb [yr awdurdod] i beidio â gweithredu unrhyw argymhellion a allai arwain at newidiadau i'r Systemau Dyletswydd mewn gorsafoedd tân unigol nes bo ein canllawiau Cynllun Integredig Rheoli Risg a'r safonau cysylltiedig ar gael". Atgoffodd y Clerc y Panel fod gan yr Awdurdod gyfrifoldeb statudol dan wahanol ddarnau o ddeddfwriaeth i ddarparu gwasanaeth cyhoeddus effeithlon o'r ansawdd uchaf posibl a oedd yn gwarchod ac yn ymateb i anghenion y gymuned roedd yn ei gwasanaethu. Gallai'r oedi cyn i Lywodraeth y Cynulliad gyhoeddi'r Canllawiau Cynllun Integredig Rheoli Risg drafft at ddiben ymgynghoriad a chyflwyno deddfwriaeth mewn nifer o feysydd a ddeddfwyd arnynt yn Lloegr eisoes gael effaith andwyol ar allu'r Awdurdod i bennu ei gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Pe na bai'r Canllawiau yn cael eu cyhoeddi at ddiben ymgynghoriad cyn diwedd y flwyddyn galendr bresennol byddai'n effeithio ar brosesau pennu cyllideb awdurdodau tân ac achub ar gyfer 2006/07.

Roedd y Cynghorydd E C George o'r farn y dylai'r Awdurdod gyflwyno sylwadau i Weinidogion Llywodraeth y Cynulliad yn pwysleisio'r problemau cyllidebol a wynebai oherwydd yr oedi gan y Cynulliad cyn cyhoeddi'r dogfennau ymgynghorol ac oherwydd goblygiadau cost cyflwyno'r System Datblygiad Personol Integredig, a oedd y tu hwnt i Gytundeb Cyflog 2003. Gofynnodd i'r Awdurdod wneud cais am gyllid ychwanegol tuag at ariannu'r eitem olaf. Roedd y Cynulliad wedi cynnig cyllid tebyg i awdurdodau lleol i leddfu effaith y broses Gwerthuso Swyddi.

Awgrymodd y Trysorydd, gan fod setliad Grant Cynnal Refeniw darpariaethol yr awdurdodau lleol i'w gyhoeddi at ddibenion ymgynghori ar 1af Tachwedd, gallai fod yn briodol i'r Swyddogion gyflwyno sylwadau ar setliadau'r awdurdodau cyfansoddol o safbwynt yr Awdurdod Tân ac Achub.

Yna aeth y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Claydon ymlaen i esbonio i'r aelodau a oedd yn absennol o gyfarfod y Gweithgor Cynllun Integredig Rheoli Risg fod nifer o feysydd a oedd yn addas i'w cynnwys yng Nghynllun Gweithredu trydedd flwyddyn Cynllun Integredig Rheoli Risg yr Awdurdod wedi ei cyflwyno i'r Gweithgor. Ymysg y meysydd hyn roedd gweithredu'r argymhellion a ddeilliodd o'r Adolygiad Peiriannau Arbennig, codi tâl am fynd i alwadau diangen dro ar ôl tro a ddeilliai o larymau mwg awtomatig, treialu cynlluniau ymateb ar y cyd, mentrau diogelwch tân cymunedol ar gyfer eiddo mewn ardaloedd gwledig, darpariaeth canfod lleoliad yn awtomatig, rhaglen monitro perfformiad hygyrch ac adolygiad manwl o'r ddarpariaeth rheolwr gweithredol. Hysbyswyd yr aelodau fod Gweithgor y Cynllun Integredig Rheoli Risg wedi argymell cynnal cyfarfod arall o'r Gweithgor, gyda chyfarfod o'r Panel Gweithredol i ddilyn, ddydd Mawrth 13eg Rhagfyr 2005 gyda'r nod o drafod cynnwys terfynol cynllun gweithredu trydedd flwyddyn y Cynllun Integredig Rheoli Risg ar gyfer ei gyflwyno gerbron cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ar 19eg Rhagfyr i'w gymeradwyo ar gyfer ymgynghori. Erbyn hynny dylai'r Canllawiau Cynllun Integredig Rheoli Risg drafft fod wedi eu cyhoeddi at ddiben ymgynghoriad. Atgoffodd y Swyddogion holl aelodau'r Panel Gweithredol eu bod, drwy

rinwedd bod yn aelodau'r Panel, yn aelodau o'r Gweithgor Cynllun Integredig Rheoli Risg hefyd.

***<u>Penderfynwyd</u>: -***

i. ***nodi cynnwys yr adroddiad a'r meysydd i'w cynnwys yng Nghynllun Gweithredu Trydedd Flwyddyn drafft y Cynllun Integredig Rheoli Risg yn dilyn cynnwys y safonau amseroedd cyrraedd a argymhellir ar gyfer cerbydau cyrraedd yn uchel, i'w cyflwyno gerbron cyfarfod y Gweithgor/Panel Gweithredol ar 13eg Rhagfyr 2005;***
ii. ***bod yr Awdurdod yn ymgymryd â Chynllun Integredig Rheoli Risg cynhwysfawr ar gyfer 2006/07;***
iii. ***anfon llythyrau at y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio a'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yn pwysleisio pwysigrwydd cyhoeddi'r Canllawiau Cynllun Integredig Rheoli Risg at ddiben ymgynghoriad cyn diwedd 2005 er mwyn i awdurdodau tân ac achub allu blaen gynllunio ar gyfer blwyddyn ariannol 2006/07. Pwysleisio wrth y ddau Weinidog fod yr oedi gan Lywodraeth y Cynulliad cyn cyhoeddi'r canllawiau drafft a deddfwriaeth yn amharu ar broses pennu cyllideb yr Awdurdod ac yn effeithio ar ddewisiadau a phenderfyniadau'r aelodau; ac***
iv. ***yn dilyn y cyhoeddiad am setliad Grant Cynnal Refeniw darpariaethol awdurdodau lleol at ddibenion ymgynghoriad, y dylid cyflwyno sylwadau i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ar y pwysau ariannol sy'n wynebu awdurdodau tân ac achub o ganlyniad i'r setliad ariannol i'r awdurdodau cyfansoddol. Hefyd dylid gwneud ymholiadau gyda'r Gweinidog ynghylch a allai awdurdodau tân ac achub gael cyfran o'r cyllid a ryddheir i awdurdodau lleol i leddfu effaith Gwerthuso Swyddi ar y gyllideb, at ddibenion lleihau'r effaith a ragwelir o ran cyflwyno'r System Datblygiad Personol Integredig i gymhathu o reng i rôl.***

## 9) Ymgynghoriad ar Orchymyn y Gwasanaethau Tân ac Achub (Codi Taliadau ac Argyfyngau) (Cymru) 2005

Cyflwynodd y Clerc ei adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ac ymateb drafft, a ddosbarthwyd yn y cyfarfod, gyda'r nod o gael cytundeb y Panel ar delerau cyflwyno'r ymateb i broses ymgynghori Llywodraeth y Cynulliad ar y "Gorchymyn Gwasanaethau Tân ac Achub (Codi Taliadau ac Argyfyngau) (Cymru) 2005". Hysbysodd y Clerc y Panel fod yr amser hir a arhoswyd am gyhoeddi'r ddogfen ymgynghorol hon yn enghraifft dda o'r oedi a oedd yn llethu awdurdodau tân ac achub ac a nodwyd yn yr eitem fusnes flaenorol. Aeth ymlaen i fanylu ar gynnwys ei adroddiad a'r ymateb drafft, ac ateb cwestiynau'r aelodau. Cynghorwyd yr aelodau fod yr argymhellion a gynhwyswyd yn yr ymateb drafft o ran gwasanaethau y gellid codi tâl amdanynt yn ddewisiadau i'w cynnwys yn y ddeddfwriaeth. Cyn belled bod y dewisiadau'n cael eu cynnwys ar wynebddalen y Gorchymyn, gallai awdurdodau unigol, wrth benderfynu ar eu cynlluniau codi tâl eu hunain,

benderfynu am ba wasanaethau y byddent yn codi tâl am eu darparu a graddfeydd y taliadau hynny. Cynghorodd y Clerc y Panel fod y ddogfen ymgynghorol a'r gorchymyn drafft yn dyblygu'r Gorchymyn a ddaeth i rym yn Lloegr ar 1af Hydref 2004.

Roedd y Cynghorydd E C George o'r farn y dylai Grŵp Cyswllt Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru dynnu sylw'r Gweinidog at ddiffyg brys gweision sifil yn cyflwyno deddfwriaeth ddrafft i ymgynghori arnynt, a'r ffaith pan fo gorchmynion drafft yn cael eu cyhoeddi fod safon y drafftio yn anfoddhaol. Hysbysodd y Prif Swyddog Tân a'r Cadeirydd yr aelodau fod y diffygion hyn yn cael eu dwyn i sylw'r Gweinidog yn gyson.

***<u>Penderfynwyd</u>: - cyflwyno'r ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth y Cynulliad ar "Orchymyn Gwasanaethau Tân ac Achub (Codi Taliadau ac Argyfyngau) (Cymru) 2005" yn unol â'r fersiwn ddrafft.***

**10) Ailstrwythuro Arfaethedig y Gwasanaethau a'r Awdurdodau Heddlu**

Cyflwynodd y Clerc ei adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) a'r ymateb drafft, a ddosbarthwyd yn y cyfarfod, gyda'r nod o gael cytundeb y Panel ar ymateb i'r llythyr a dderbyniwyd oddi wrth y Clerc i Bwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwahodd yr Awdurdod i gyflwyno sylwadau ynghylch polisïau a rhaglenni unrhyw drefniadau strwythurol i'r gwasanaethau heddlu yng Nghymru yn y dyfodol.

Cyn trafod yr eitem hon hysbysodd y Cadeirydd y Panel fod Prif Swyddogion Tân Cymru wedi cael gwahoddiad i annerch, a chael eu holi gan, aelodau o Bwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio'r Cynulliad am eu barn ar y pwnc yma yr wythnos flaenorol. Roedd Cadeiryddion y tri awdurdod tân ac achub wedi anfon llythyr ar y cyd at Glerc y Pwyllgor yn gwrthwynebu'n gryf y dull gweithredu arfaethedig hwn ac o ganlyniad nid oedd unrhyw Brif Swyddog yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio.

Manylodd y Clerc ar gynnwys yr ymateb drafft i'r Panel ac atebodd gwestiynau'r aelodau. Atgoffodd yr aelodau, petai argymhellion y Swyddfa Gartref ar gyfer y gwasanaeth heddlu, a nodwyd yn yr adroddiad "Closing the Gap" yn cael eu rhoi ar waith, byddai Heddlu Gogledd Cymru yn diflannu. Roedd nifer o'r aelodau o'r farn fod gwaith yr heddlu yng Ngogledd Cymru a mwy yn gyffredin â gwaith y gwasanaethau heddlu yng ngogledd orllewin Lloegr nag yng ngweddill Cymru. Felly, petai gwasanaethau'n cael eu cyfuno, a chan nad yw troseddu yn cydnabod ffiniau gwleidyddol, byddai'n fwy ymarferol yn weithredol i Heddlu Gogledd Cymru ymuno â Heddlu Sir Gaer (Cheshire Constabulary). Cynghorodd y Clerc yr aelodau na fyddai uniad o'r fath yn bosibl gan y byddai'r gwasanaeth heddlu yn cael ei lywodraethu gan awdurdod heddlu y byddai'n ofynnol iddo gael ei gyllid oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y DU a oedd yn gweithredu trefniadau cyllido llywodraeth leol gwahanol. Cytunodd y Cynghorydd E C George fod gan Ogledd Cymru fwy yn gyffredin â Gogledd Orllewin Lloegr ond roedd o'r farn

petai newidiadau'n cael eu cyflwyno byddai'n fwy ymarferol i ffiniau gwasanaethau heddlu yng Nghymru gael eu cyf-linio â rhai'r gwasanaethau tân ac achub. Ar hyn o bryd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a Heddlu Gogledd Cymru oedd yr unig wasanaethau Heddlu a Thân ac Achub oedd yn rhannu'r un ffiniau. Roedd bod â ffiniau cyffredin oedd hefyd yn cwmpasu'r un ardal â'r chwech awdurdod lleol, wedi bod yn fantais i'r holl awdurdodau o dan sylw o ran cydweithio a darparu gwaith diogelwch cymunedol drwy gyfrwng y gwahanol bartneriaethau.

Cynghorodd y Prif Swyddog Tân y Panel ei bod yn ymddangos bod y Swyddfa Gartref wedi rhoi gwahoddiad i Lywodraeth y Cynulliad gynnig sylwadau ar yr argymhellion a gyhoeddwyd yn yr adroddiad "Closing the Gap" a bod Llywodraeth y Cynulliad, fel rhan o'r broses casglu gwybodaeth ar gyfer ymateb, wedi gwahodd amrediad eang o sefydliadau yng Nghymru i gyflwyno eu barn. Roedd o'r farn y dylid cefnogi ffiniau yn cyd-daro ag awdurdodau tân ac achub er, yn y tymor hir, gallai hyn fod yn llafn ddeublyg i'r awdurdodau tân ac achub.

***<u>Penderfynwyd</u>: - anfon ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio'r Cynulliad ar "Ailstrwythuro Heddlu" yn unol â'r fersiwn ddrafft.***

## 11) Darpariaeth Llety ar gyfer Aelodau i fynychu Cynhadledd Walesfire 2006

Cynghorodd y Trysorydd y Panel, yn dilyn cais yng nghyfarfod mis Medi'r Awdurdod Tân ac Achub, fod dadansoddiad cost o'r effaith tybiedig ar y gyllideb o ddarparu llety i aelodau oedd yn dymuno mynychu'r gynhadledd Walesfire 2006 yn Llandudno wedi ei gwblhau. Cynhelid y Gynhadledd rhwng 8fed a'r 10fed Mai 2006. Esboniodd y Trysorydd, ar sail y dyb mai uchafswm nifer yr aelodau a fyddai'n mynychu'r gynhadledd ac angen llety dros nos arnynt fyddai 25 o aelodau (ystyrir bod yr aelodau sy'n weddill yn byw o fewn pellter teithio rhesymol i'r lleoliad), y byddai cyfanswm y gost, yn cynnwys costau teithio a ffioedd y gynhadledd (i 28 o aelodau) a llety am ddwy noson (i 25 o aelodau) tua £6,720. Petai 28 o aelodau yn teithio i'r gynhadledd bob diwrnod, byddai cyfanswm y gost, yn cynnwys costau teithio a ffioedd y gynhadledd tua £4,420. Dywedodd y Trysorydd y byddai'n rhaid cynnwys hyn yng Nghyllideb 2006/07 fel rhan o ddyraniad Cynllun Lwfansau ar gyfer Aelodau a Ffioedd Cynadleddau Aelodau, pa bynnag ddewis fyddai'n cael ei ffafrio gan yr aelodau.

Atgoffodd y Prif Swyddog Tân yr Aelodau mai Cynhadledd y flwyddyn nesaf oedd y gyntaf erioed i'w chynnal y tu allan i Ddinbych y Pysgod. Gan fod hyn yn cynrychioli symudiad sylweddol mewn polisi o ran y trefnwyr roedd yn hanfodol bwysig cael cynrychiolaeth gref o blith aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn y Gynhadledd.

***<u>Penderfynwyd</u>: -***

i. ***nodi'r goblygiadau i'r gyllideb petai'r aelodau'n mynychu Cynhadledd Walesfire 2006; ac***

ii. ***oherwydd pwysigrwydd y digwyddiad a'r ffaith ei bod yn hanfodol cael cynrychiolaeth gref o blith aelodaeth yr Awdurdod er mwyn sicrhau llwyddiant y digwyddiad, byddai'n rhaid gwneud darpariaeth o fewn cyllideb yr Awdurdod ar gyfer 2006/07 i dalu costau mynychu'r gynhadledd, costau teithio a darparu llety am ddwy noson ar gyfer yr aelodau.***

**12) Amrywiadau i Gyllideb yr Adran Drafnidiaeth**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Gwasanaethau Corfforaethol) yr adroddiad, yn absenoldeb y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cynnal y Gwasanaethau), yn gofyn i'r aelodau gymeradwyo addasiadau i Gyllideb Cyfalaf yr Adran Drafnidiaeth ar gyfer 2005/06. Manylodd ar y rhesymau y tu ôl i'r newidiadau gofynnol a chynghorodd fod y tanwariant, a nodwyd fel arian ar gael i gyllido'r cynnydd mewn gwariant, wedi deillio o arbedion a wnaed drwy gydweithio â gwasanaethau tân ac achub eraill yng Nghymru o ran caffael.

***Penderfynwyd: - cymeradwyo'r cynyddiadau arfaethedig yn y gwariant ar gerbyd hyfforddi gwrthdrawiadau ar y ffyrdd a'r cerbyd hyfforddiant gyrru drwy ddefnyddio'r arian o'r tanwariant a nodwyd.***

**13) Nodi degfed penblwydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Gwasanaethau Corfforaethol) ei adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn ceisio barn yr aelodau am y dull mwyaf priodol o nodi degfed penblwydd yr Awdurdod. Cytunodd nifer o'r aelodau â'r egwyddor o gofnodi'r degfed penblwydd ond pwysleisiwyd, oherwydd y pwysau ar y gyllideb, y dylid cadw costau unrhyw achlysuron neu gyhoeddiadau dathlu i'r isafswm. Yn dilyn trafodaeth ar nifer o ddewisiadau:

***Penderfynwyd: - gwneud ymholiadau ac adrodd yn ôl i'r Panel Gweithredol/Awdurdod am y posibilrwydd o gynnal derbyniad yn Walesfire 2006 i gofnodi degfed penblwydd yr Awdurdod, a chyhoeddi llyfryn yn cynnwys manylion am lwyddiannau'r Awdurdod yn ystod y deng mlynedd.***

**14) Y Pwysau ar y Gyllideb gan y Symud o Reng i Rôl**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Gwasanaethau Corfforaethol) ei adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn cynghori'r aelodau am effaith tebygol y cymhathu Reng i Rôl ar broses pennu cyllideb y flwyddyn nesaf. Esboniodd yr holl fanylion a gynhwyswyd yn yr adroddiad cyn ateb cwestiynau'r aelodau. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd E C George, hysbysodd y Prif Swyddog Tân y Panel fod y ffigyrau yn yr adroddiad yn gysylltiedig â'r sefyllfa waethaf. Hefyd cynghorodd yr aelodau eu bod yn parhau i aros am gadarnhad a fyddai'n ofynnol ôl-ddyddio'r cynnydd mewn cyflogau i fis Tachwedd 2003. Os mai dyna fyddai'r achos roedd o'r farn y byddai'r Llywodraeth yn disgwyl i awdurdodau gyllido unrhyw gynnydd o'r fath o'r arbedion effeithlonrwydd yn deillio o'r broses foderneiddio.

***Penderfynwyd: - nodi cynnwys yr adroddiad.***

Gadawodd y Cynghorydd J M Vaughan y cyfarfod ar y pwynt yma.

**15) Y Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân Newydd Arfaethedig ar gyfer Lloegr**

Cyn dechrau ar yr eitem fusnes yma holodd y Cynghorydd W J Chorlton a ddylai ef, fel diffoddwr tân wedi ymddeol oedd yn derbyn pensiwn, ddatgan budd ariannol. Fe'i hysbyswyd gan y Clerc y gallai gymryd rhan yn y drafodaeth ar yr eitem hon gan ei bod yn cyfeirio at y cynllun pensiwn newydd na fyddai ef, fel pensiynwr presennol, yn elwa ohoni.

Yna cyflwynodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Gwasanaethau Corfforaethol) ei adroddiad a'r atodiadau (a ddosbarthwyd yn flaenorol), yn hysbysu'r aelodau am y Cynllun Pensiwn newydd arfaethedig ar gyfer Diffoddwyr Tân yn Lloegr. Esboniodd nifer o'r pynciau yn yr adroddiad a'r atodiadau i'r aelodau, gan gynnwys y fframwaith i'r cynllun newydd a gyhoeddwyd ar y cyd gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog a'r gweinyddiaethau datganoledig yn y Deyrnas Unedig. Cynghorodd y Clerc y Panel eu bod yn parhau i aros am ddogfen ymgynghori ffurfiol ar y cynigion o ran y cynllun newydd yng Nghymru gan y Cynulliad. Er y disgwylid na fyddai'r cynllun newydd yng Nghymru yn wahanol i'r cynllun newydd oedd i'w gyflwyno yn Lloegr ym mis Ebrill 2006, roedd y Gweinidog eisoes wedi cyhoeddi na fyddai'r cynllun newydd yn dod i rym yng Nghymru tan fis Ebrill 2007.

***Penderfynwyd: - nodi cynnwys yr adroddiad.***

**16) Arbedion Effeithlonrwydd**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Gwasanaethau Corfforaethol) ei adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn rhoi'r diweddaraf i'r aelodau ar y cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r arbedion effeithlonrwydd o 1% oedd yn ofynnol yng nghyllideb 2005/06 yr Awdurdod, o gyllideb cyflogau y diffoddwyr tân rhan amser. Manylodd ar y materion yn yr adroddiad a chynghorodd yr aelodau, petai'r tueddiad presennol yn parhau, gallai'r Awdurdod fod yn edrych ar danwariant yn y maes penodol hwn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Hefyd cynghorwyd yr aelodau y gallai'r sefyllfa yma newid pe ceid cyfnod maith o amodau tywydd gwael yn ystod misoedd y gaeaf.

***Penderfynwyd: - nodi'r cynnydd hyd yma a bod adroddiad cynnydd pellach yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Panel Gweithredol ym mis Ionawr 2006.***

**17) Monitro Perfformiad**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau) ei adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn darparu gwybodaeth i'r aelodau ynghylch perfformiad y Gwasanaeth yn erbyn y gwahanol ddangosyddion

perfformiad yn chwarter cyntaf y flwyddyn adrodd 2005/06. Esboniodd fod yr adroddiad yn hunanesboniadol a bod unrhyw newidiadau sylweddol a oedd wedi digwydd rhwng diwedd y cyfnod dan sylw a diwedd Awst wedi eu nodi yn y blychau "Y Diweddaraf".

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi cynnwys yr adroddiad monitro perfformiad.***

Atgoffodd y Prif Swyddog Tân yr aelodau ei fod wedi rhoi adroddiad ar 'farwolaeth oherwydd tân' a ddigwyddodd yng nghanol mis Medi i'r Awdurdod yn ei gyfarfod diwethaf. Yn anffodus, roedd y Crwner wedi ei hysbysu am farwolaeth arall a oedd yn cael ei gyfrif fel 'marwolaeth oherwydd tân' yn ddiweddar. Aeth ymlaen i roi manylion am yr amgylchiadau anarferol ynghlwm â'r digwyddiad angheuol diweddaraf a'r rhesymau pam ei bod, ar hyn o bryd, yn cael ei gynnwys yn y categori marwolaeth oherwydd tân. Cynghorwyd yr aelodau gan y Prif Swyddog Tân y byddai Swyddogion yn parhau mewn cysylltiad ac yn cydweithio â Swyddfa'r Crwner, ac y byddent maes o law yn mynychu'r cwest.

Gadawodd y Cynghorydd M Williams y cyfarfod ar y pwynt yma.

**18) Ymestyn Tâl Salwch**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn hysbysu'r aelodau am y penderfyniadau a wnaed ganddo yn dilyn ymgynghori â'r Cadeirydd o ran caniatáu estyniadau i gyfnodau tâl salwch.

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi cynnwys yr adroddiad.***

**19) Materion Brys**

Dim.

**20) Dyddiad(au) cyfarfod(ydd) y dyfodol**

Roedd aelodau'r Panel o'r farn ei bod yn bwysig, oherwydd goblygiadau cyllideb cynnwys Cynllun Gweithredu Trydedd Flwyddyn Cynllun Integredig Rheoli Risg yr Awdurdod a chyhoeddiad Canllawiau Cynllun Integredig Rheoli Risg drafft ar gyfer ymgynghoriad, cynnal cyfarfod nesaf y Gweithgor Cynllun Integredig Rheoli Risg a'r Panel Gweithredol cyn cyfarfod nesaf yr Awdurdod Tân ac Achub. Felly

***<u>Penderfynwyd</u>: - cynnal cyfarfod nesaf y Gweithgor Cynllun Integredig Rheoli Risg ddydd Mawrth,13<sup>eg</sup> Rhagfyr 2005 am 10yb, gyda chyfarfod o'r Panel Gweithredol yn syth wedyn; y ddau gyfarfod i'w cynnal ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy.***

Hysbysodd y Cadeirydd yr aelodau yr argymhellid trafod yr eitem fusnes a oedd yn weddill ar agenda'r cyfarfod heb i'r wasg na'r cyhoedd fod yn bresennol.

***<u>Penderfynwyd</u>: - yn unol ag Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitem a ganlyn oherwydd ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig iddynt fel a ddiffinnir ym mharagraffau 1, 8, 9 a 10 o Ran I Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.***

**<u>RHAN II</u>**

**21) Y Diweddaraf ar Brosiectau Cyfalaf**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Gwasanaethau Corfforaethol) yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ar ran y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cynnal y Gwasanaethau) yn rhoi y diweddaraf i'r aelodau ar raglen cyfalaf yr Adran Eiddo. Cynghorwyd yr aelodau fod yr adroddiad o'u blaenau yn adroddiad gwybodaeth arferol a bod Mr Nigel Williams, Rheolwr Ystadau'r Gwasanaeth, yn bresennol ac yn fodlon ateb cwestiynau'r aelodau. Mewn ymateb i gwestiwn eglurodd Mr Williams y sefyllfa o ran y trafodaethau oedd yn parhau yng nghyswllt Gorsaf Dân Llandudno.

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi cynnwys yr adroddiad.***

Gorffennodd y cyfarfod am 1.50pm.

**Cymeradwywyd yr uchod, gan gynnwys unrhyw newidiadau a ddangosir, yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion.**

**Arwyddwyd:** <u>T Roberts</u> **Dyddiedig:** <u>13 Rhagfyr, 2005</u>